CEFNOGI'R FRENHINES

Prif ran rôl Tywysog Cymru yw cefnogi Ei Mawrhydi'r Frenhines yn ei rôl fel canolbwynt balchder, undod a theyrngarwch y genedl. Mae'n dod â phobl o bob rhan o gymdeithas at ei gilydd, ac yn cynrychioli sefydlogrwydd a dilyniant, tynnu sylw at gyflawni, a phwysleisio pwysigrwydd gwasanaeth a'r sector gwirfoddol drwy annog a gosod esiampl.

Y DEYRNAS UNEDIG A THRAMOR

Yn ystod y flwyddyn, cyflawnodd Tywysog Cymru a Duges Cernyw amryw o wahanol ymrwymiadau ac ymweliadau, gartref a thramor fel ei gilydd. Roedden nhw'n amrywio o achlysuron seremonïol er mwyn cefnogi a chynrychioli'r Lluoedd Arfog wrth eu gwaith ar ran y genedl, i ymgymryd â theithiau swyddogol tramor er mwyn hybu buddiannau Prydain mewn gwledydd tramor.

Lloegr

Mae bod yn bresennol mewn achlysuron cenedlaethol pwysig ymhlith dyletswyddau Eu Huchelderau Brenhinol, ac nid oes dwywaith nad un o uchafbwyntiau eleni oedd dathlu pen-blwydd Ei Mawrhydi'r Frenhines yn 80 oed. Ar ddiwrnod ei phen-blwydd, 21 Ebrill 2006, bu Tywysog Cymru'n llywyddu mewn cinio ym Mhalas Kew yn Llundain ar gyfer 27 aelod o'r Teulu Brenhinol. Yn gynharach, darlledodd Ei Uchelder Brenhinol deyrnged arbennig i'r Frenhines ar y teledu cenedlaethol. Ynddo, talodd deyrnged i'w fam am ei "dewrder a'i chadernid hynod", a dymunodd "fel mab balch a chariadus... y pen-blwydd hapusaf erioed".

Aeth y Tywysog a'r Dduges gyda Thywysog William a Thywysog Harry ar 17 Mehefin 2006 i achlysur mwy ffurfiol i ddathlu pen-blwydd swyddogol y Frenhines, sef Gwasanaeth o Ddiolchgarwch yn Eglwys Gadeiriol St Paul's. Ar ôl y gwasanaeth, bu Arglwydd Faer Llundain yn arwain cinio yn Mansion House. Yn ei haraith, nododd y Frenhines fod 2006 yn flwyddyn i ddathlu dau ben-blwydd pwysig arall – pen 50 mlynedd ers i Wobr Dug Caeredin gael ei sefydlu, a 30 mlynedd ers i Ymddiriedolaeth y Tywysog gael ei sefydlu. Dywedodd y Frenhines fod llwyddiant y mudiadau'n tystio i egni ac ymroddiad ei gŵr a'i mab hynaf, a dywedodd: "Rwy'n falch iawn o gael cyfle i dynnu sylw at eu cyflawniadau ac i ddiolch i'r ddau am eu cefnogaeth gyson."

Rhan bwysig o rôl y Teulu Brenhinol yw cefnogi a chydymdeimlo mewn argyfyngau neu wrth i'r wlad gael ei herio'n fawr. Ac ym mis Hydref 2006 dadorchuddiodd y Tywysog a'r Dduges gofeb yn Llundain i'r 202 o bobl a gollodd eu bywydau yn 2002 pan ffrwydrodd bomiau terfysgwyr yn Bali. Ar ôl talu teyrnged i'r dioddefwyr, aeth Eu Huchelderau Brenhinol i dderbyniad ar gyfer 600 o gyfeillion a pherthnasau'r rhai a gollodd eu bywydau.

Ym mis Mehefin 2006, cynhaliodd y Tywysog dderbyniad yn Highgrove ar gyfer teuluoedd y rhai a gollodd eu bywydau a rhai o'r bobl a gafodd eu hanafu'n ddifrifol yn ymosodiadau terfysgwyr ar Lundain ar 7 Gorffennaf 2005.

Mae gwaith y Teulu Brenhinol hefyd yn cynnwys cefnogi diwydiant twristiaeth y DU, ac ym mis Mawrth 2007 aeth Tywysog Cymru i Dŵr Llundain fel Noddwr yr Wythnos Twristiaeth Prydain gyntaf un. Aeth Ei Uchelder Brenhinol o gwmpas y palas brenhinol, ac wrth lansio'r fenter newydd soniodd am ei obaith y byddai pobl yn "ymdrechu'n galed" i atgoffa trigolion Prydain am y cyfleoedd ardderchog sydd i'w cael i fynd ar wyliau gartref. Aeth y Tywysog ar daith ar fad wedyn i fyny Afon Tafwys heibio i rai o atyniadau mwyaf poblogaidd Llundain ar ei ffordd yn ôl i bier Westminster.

Mae'r Tywysog a'r Dduges hefyd yn cymryd rhan wrth i Benaethiaid Gwladwriaethau ymweld â'r DU, a'r llynedd fe aeth Ei Uchelder Brenhinol i wledd ar gyfer Arlywydd Ghana.

Cymru

Er mwyn cydnabod ei berthynas arbennig â Chymru, mae Ei Uchelder Brenhinol yn ymweld yn rheolaidd â'r Dywysogaeth. Un o'r uchafbwyntiau bob haf yw wythnos lawn y Tywysog a'r Dduges o ymrwymiadau a digwyddiadau yng Nghymru.

Yn ystod eu hwythnos yng Nghymru'r llynedd aeth Eu Huchelderau Brenhinol i Gastell Aberteifi lle mae Ymddiriedolaeth Adfywio'r Tywysog (*The Prince's Regeneration Trust*) wedi bod yn cynghori'r ymddiriedolaeth adnewyddu adeiladau lleol ynglŷn â datblygu cynllun sy'n gofalu bod y castell yn cael ei ddefnyddio'n gynaliadwy yn y tymor hir. Un arall o elusennau'r Tywysog i gael sylw yn ystod yr wythnos oedd PRIME-Cymru sy'n cynorthwyo pobl fusnes a rhai hunangyflogedig dros 50 oed. Wrth ymweld â phentref Southgate, arhosodd Eu Huchelderau Brenhinol yn *Jewels by the Sea*, siop gwerthu mwclis a gafodd ei sefydlu gan Marianne Merrick gyda help PRIME-Cymru. Yno cafodd y Cwpl Brenhinol gyfle i gwrdd pobl eraill sydd wedi elwa ar waith yr elusen yng Nghymru.

Aeth y Tywysog a'r Dduges hefyd i Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen, un o brif wyliau cerddorol y genedl. Gan aros ym myd y celfyddydau, cyflwynwyd telyn werth £150,000 sydd wedi'i gorchuddio â haen o aur i'r Tywysog ar yr un diwrnod. Victor Salvi, y gwneuthurwr enwog o'r Eidal, a wnaeth y delyn, a Claire Jones, Telynores Swyddogol Ei Uchelder Brenhinol, fydd yn ei defnyddio.

Ym mis Mawrth 2007 ac fel rhan o Wythnos Twristiaeth Prydain, aeth y Tywysog i Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru yn Llanarthne, Sir Gaerfyrddin. Aeth Ei Uchelder Brenhinol yn ei flaen wedyn i Lwynywermwd, y fferm ym Myddfai, Gorllewin Cymru, y mae Dugaeth Cernyw wedi'i phrynu i'r Tywysog a'r Dduges ei defnyddio fel cartref yn ystod eu hymweliadau rheolaidd â Chymru. Yn ogystal ag aros yno'i hun, bwriad y Tywysog yw cynnig y fferm fel llety gwyliau achlysurol i ymwelwyr ac fel lle i rai o'i elusennau gynnal cyfarfodydd a seminarau busnes.

Ym mis Chwefror 2007, aeth Tywysog William am y tro cyntaf i wylio gêm rygbi ryngwladol yn rhinwedd ei swydd fel Is-noddwr Brenhinol Undeb Rygbi Cymru. Fe welodd Cymru'n chwarae Iwerddon yn Stadiwm y Mileniwm yng Nghaerdydd. Dywedodd JPR Williams, un o arwyr byd y bêl gron yng Nghymru, y byddai rygbi ar ei ennill oherwydd cyswllt Tywysog William â'r tîm cenedlaethol. "Fe gwrddais i â Thywysog Cymru'r tro cyntaf pan ddaeth i Barc yr Arfau yng Nghaerdydd 38 o flynyddoedd yn ôl, ac mae'n bleser gweld y cyswllt hwnnw'n para." dywedodd JPR.

Yr Alban

Mae'r Tywysog a'r Dduges ill dau'n hoff iawn o'r Alban. Maen nhw'n treulio llawer o amser yno bob blwyddyn pan fydd y ddau'n cyflawni ymrwymiadau ac yn aros yn eu cartref yn Birkhall yn Sir Aberdeen.

Mae meysydd gwaith Ei Uchelder Brenhinol yn yr Alban yn eang ac amrywiol iawn, ond roedd pwyslais arbennig y llynedd ar ddatblygu gwaith ei elusennau a'i fentrau, yn arbennig ym maes treftadaeth ac adfywio'r amgylchedd adeiledig.

Y DEYRNAS UNEDIG A THRAMOR
PARHAD

Ymhlith yr uchafbwyntiau oedd araith y Tywysog yng nghynhadledd "*Inspiring Cities*" a gafodd ei threfnu gan *Edinburgh World Heritage*, derbyniad yn Senedd yr Alban i ddathlu pen 30 blynedd o waith *The Prince's Trust* yn yr Alban, ac achlysur lansio ail ran ei fenter yng ngogledd yr Ucheldiroedd (*North Highland Initiative* [NHI]) yn Caithness.

Yn ystod digwyddiad NHI yng Nghastell Mey ym mis Awst 2006, daeth cynrychiolwyr dros 150 o westai mawr a bach a rhai o fudiadau eraill gogledd yr Ucheldiroedd at ei gilydd i lansio "*Pleasure in the Extreme*", brand newydd i hybu twristiaeth yn un o ardaloedd mwyaf gogleddol yr Alban.

Daw'r fenter hon yn sgil llwyddiant *Mey Selections*, brand a gafodd ei lansio yn 2005 i werthu cig eidion, cig oen a chaws o'r ardal. Ei Uchelder Brenhinol a sefydlodd NHI i helpu economi gogledd yr Ucheldiroedd a thynnu sylw at yr ardal trwy werthu bwyd a diodydd oddi yno, a hybu twristiaeth ac ansawdd yr adeiladau treftadaeth.

Un arall o uchafbwyntiau'r flwyddyn yn yr Alban oedd ymweliad Dug Rothesay (sef teitl Ei Uchelder Brenhinol yn yr Alban) â 200fed Sioe Amaethyddol Bute. Aeth y Dug o gwmpas stondinau dyfarnu'r sioe i gwrdd cystadleuwyr ac i gyflwyno rhosedi i'r buddugwyr. Aeth yn ei flaen wedyn i Gastell Rothesay a gafodd ei adeiladu gan James IV yn yr unfed ganrif ar bymtheg fel cartref haf i'r Teulu Brenhinol.

Gogledd Iwerddon

Ym mis Mai 2006, aeth Eu Huchelderau Brenhinol i ysbyty Musgrave Park yn ne Belfast i agor uned bwrpasol gyntaf Gogledd Iwerddon ar gyfer pobl sydd wedi cael niwed i'w hymennydd. Ar ôl gweld y cyfleusterau diweddaraf yn yr uned, cafodd y Tywysog a'r Dduges gyfle i gwrdd gwirfoddolwyr cangen Belfast o'r Gymdeithas Osteoporosis Genedlaethol.

Ymunodd Eu Huchelderau Brenhinol â 2,500 o westeion eraill mewn gwledd yng ngerddi Castell Hillsborough dan arweiniad Peter Hain, Ysgrifennydd Gogledd Iwerddon. Cafodd y Tywysog a'r Dduges gyfle yn ystod y digwyddiad i gwrdd rhai o gynrychiolwyr sector iechyd Gogledd Iwerddon, yn cynnwys ymarferwyr ym maes meddygaeth integredig.

Yn ystod eu hymweliad dau ddiwrnod â'r dalaith ym mis Mai, cytunodd Eu Huchelderau Brenhinol i roi gwrandawiad arbennig i Anna Earls, merch wyth oed o ardal Dundonald, Belfast. Roedd Anna, sy'n dioddef o diwmor malaen, wedi anfon peintiad at Sefydliad *Make-a-Wish* yn 2005 yn esbonio mai ei dymuniad oedd cwrdd y Cwpl Brenhinol. Yn hwyrach ar yr un diwrnod, aeth y Tywysog a'r Dduges i weld gwneuthurwyr caws Gwyddelig traddodiadol yn hufenfa Fivemiletown yn Sir Tyrone.

Tramor

Bob blwyddyn, mae dyletswyddau Eu Huchelderau Brenhinol yn mynd â nhw dramor i hybu buddiannau'r wlad. Roedd dwy brif daith swyddogol yn ystod 2006-07: y gyntaf i Bacistan ym mis Tachwedd 2006 a'r ail i bedair o wledydd y Gwlff ym mis Chwefror 2007. Aeth y Tywysog ar daith ar ei ben ei hun hefyd: i Orllewin Affrica ym mis Tachwedd 2006, ac aeth i Unol Daleithiau America gyda'r Dduges ym mis Ionawr 2007 gan gyflawni sawl ymrwymiad yn Philadelphia ac Efrog Newydd.

Mae'r teithiau yma'n cael eu trefnu gyda'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad a'u nod yw hybu a diogelu buddiannau Prydain dramor.

Yn ystod taith Eu Huchelderau Brenhinol i wledydd y Gwlff ym mis Chwefror 2007, cafodd Duges Cernyw gyfle i gwrdd aelodau benywaidd o dai uchaf ac isaf y Senedd ym Mahrain. Yn ystod ei hymweliad, cafodd y Dduges wybod am y diwygiadau democrataidd sy'n digwydd ym Mahrain ac am y ffordd mae rôl gwragedd yn llywodraeth a chyfreithiau'r wlad yn ffynnu. Un o'r aelodau y cafodd hi gyfle i'w cwrdd oedd Dr Nada Haffadh, aelod o gyngor Shura a gafodd ei phenodi i'r cabinet yn 2004 fel y Gweinidog dros Iechyd.

Roedd yr ymweliad yma'n un o nifer o ymrwymiadau a wnaeth y Dduges ar ei phen ei hun gan ganolbwyntio'n bennaf ar fyd addysg a gofal dros wragedd a phlant. Ymhlith y llefydd ar daith Ei Huchelder Brenhinol oedd Canolfan Hyfforddi Al Noor ar gyfer Plant ag Anghenion Arbennig yn Dubai, a'r Ganolfan er Gwerthuso ac Addysgu Plant yn Kuwait.

Prif nod y daith i Bacistan oedd tynnu sylw at hyd a lled y bartneriaeth rhwng y ddwy wlad, gan ganolbwyntio'n arbennig ar y berthynas rhwng pobl o wahanol ffydd, addysg ac entrepreneuriaeth pobl ifanc, a datblygu cynaliadwy. Yn ystod y daith wythnos o hyd, aeth Eu Huchelderau Brenhinol i Lahore, y rhan a Kashmir a weinyddir gan Bacistan, pentrefi ym mynyddoedd y gogledd, ac Islamabad lle cafodd y Tywysog gyfle i gwrdd Arlywydd Pervez Musharraf.

Yn ystod y cyfarfod hwnnw, diolchodd yr Arlywydd i'r DU am ei chefnogaeth ar ôl y ddaeargryn ddifrodus ym mis Hydref 2005. Cafodd y Tywysog a'r Dduges gyfle i weld y gwaith ailadeiladu yn nhref Pattika a gafodd ei dinistrio gan y ddaeargryn.

Aeth ail brif daith 2006-07 â'u Huchelderau Brenhinol i Kuwait, Qatar, Bahrain ac, yn yr Emiraethau Arabaidd Unedig, Abu Dhabi a Dubai. Fel pob ymweliad arall â'r Dwyrain Canol, prif bwrpas y daith oedd atgyfnerthu perthynas gwleidyddol, amddiffynnol, masnachol a diwylliannol y DU â'r rhanbarth. Roedd y daith deg diwrnod yn cynnwys cyfarfodydd â Theuluoedd Llywodraethol y gwahanol wledydd, ymrwymiadau i dynnu sylw at gyfleoedd i bobl ifanc, a digwyddiadau oedd yn tanlinellu pwysigrwydd addysg a thrafod rhwng pobl o wahanol ffydd.

Tywysog Cymru ei hun a aeth ar drydedd daith dramor y flwyddyn pan aeth i Sierra Leone a Nigeria. Aeth i Sierra Leone i dynnu sylw at y ffaith fod y wlad yn dod allan o gyfnod o flynyddoedd lawer o ryfel cartref, ac i gwrdd aelodau o Luoedd Arfog Prydain sy'n hyfforddi byddin y wlad. Treuliodd y Tywysog dridiau yn hwyrach yn yr un wythnos yn Nigeria, lle y bu'n helpu i ddathlu cyfnod di-dor hiraf y wlad o lywodraethu democrataidd.

Aeth Eu Huchelderau Brenhinol ym mis Ionawr 2007 i UDA hefyd. Ymateb oedd y daith i gais gan y Swyddfa Dramor a Chymanwlad i'r Tywysog a'r Dduges fynd ar ail ymweliad i ddilyn eu hymweliad llwyddiannus ag UDA yn 2005.

Prif bwrpas y daith 10 diwrnod i wledydd y Gwlff oedd atgyfnerthu perthynas y DU â'r rhanbarth.

Y GWASANAETHAU ARFOG

Mae perthynas Tywysog Cymru â'r Gwasanaethau Arfog wedi'i seilio ar bedair thema: hybu rôl y Lluoedd ym mywyd y genedl trwy ymweliadau gweithredol a dyletswyddau seremonïol; canolbwyntio ar broffesiynoldeb a rhagoriaeth yr hyfforddiant; hybu lles staff y gwasanaethau a'u teuluoedd; a helpu i gynnal a gwella trefn gatrodol unigryw Prydain trwy gysylltiadau â chatrodau a grwpiau o gynfilwyr.

Mae gwraig a meibion y Tywysog yn rhannu'r un teyrngarwch ag ef i'r Gwasanaethau Arfog. Mae gan Dduges Cernyw ddau gyswllt milwrol swyddogol: hi yw Cyrnol Brenhinol 4ydd Bataliwn Y Reifflau a Phrif Gomodor Gwasanaethau Meddygol y Llynges.

Yn rhinwedd ei swydd fel Prif Gyrnol Catrawd y Parasiwtwyr yr aeth y Tywysog a'i wraig ym mis Tachwedd 2006 i ymweld â 3ydd Bataliwn y Gatrawd ym Marics Hyderabad yn Colchester, Essex. Pwrpas yr achlysur oedd cyflwyno medalau o wasanaeth gweithredol i aelodau'r gatrawd a oedd newydd ddod yn eu holau o Affganistan ac i gwrdd yn breifat â theuluoedd tri o filwyr y 3ydd Bataliwn a gafodd eu lladd wrth eu gwaith. Yn ystod eu hymweliad, cafodd Eu Huchelderau Brenhinol gyfle hefyd i gwrdd disgyblion o ysgolion cynradd y garsiwn a theuluoedd milwyr.

Er bod y Tywysog a'r Dduges yn ymweld yn rheolaidd ag unedau milwrol yn y DU, maen nhw hefyd yn manteisio ar bob cyfle posib yn ystod eu teithiau swyddogol tramor i ymweld â lluoedd arfog Prydain wrth iddyn nhw wasanaethu dramor. Yn ystod eu taith i Wledydd y Gwlff ym mis Chwefror 2007, aeth Eu Huchelderau Brenhinol i weld rhai o aelodau awyrluoedd Prydain a gwledydd y Gymanwlad yng nghanolfan Al Udeid yn Qatar. Mae'r ganolfan yn cynnig cefnogaeth werthfawr iawn i'r milwyr sy'n gwasanaethu yn Irac ac Affganistan, ac mae'n gartref parhaol i lawer o awyrennau Tornado, VC10 a C130.

Ar eu ffordd adref ar ôl eu taith i wledydd y Gwlff, oedodd y Tywysog a'r Dduges er mwyn dathlu Dydd Gŵyl Dewi gyda'r Gwarchodlu Cymreig sy'n gwasanaethu ym Mosnia a Herzegovina. Roedd Bataliwn 1af y Gwarchodlu Cymreig, a oedd yn rhan amlwg o luoedd Prydain ym Mosnia, newydd glywed mai hon fyddai catrawd olaf y DU i fod yn rhan o EUFOR a fu'n gweithio i ddod â heddwch i'r ardal. Yn ôl y traddodiad, cyflwynwyd cennin i'r milwyr gan y Tywysog, Cyrnol y Gatrawd, a'r Dduges.

Un o brif ddyletswyddau aelodau'r Teulu Brenhinol yw cofio gwasanaeth ac aberth cynfilwyr y Lluoedd Arfog yn rhyfeloedd a gwrthdrawiadau'r gorffennol. Un o'r achlysuron mwyaf teimladwy'r llynedd oedd yr un lle ymunodd Eu Huchelderau Brenhinol â miloedd o bobl yn Ffrainc ym mis Gorffennaf 2006 i gofio am y 125,000 o filwyr Prydain a gafodd eu lladd ar feysydd brwydr y Somme yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.

Gosododd y Tywysog a'r Dduges dorch o flodau pabi ar Gofeb Thiepval. Aethant wedyn i gwrdd Henry Allingham, 110 oed, cynfilwr hynaf y Rhyfel Mawr sy'n dal yn fyw. Wrth sôn am ei resymau dros ddod i'r seremoni, dywedodd Henry: "Nid er fy mwyn fy hun yr ydw i yma. Rydw i yma er mwyn y dynion hynny yr oeddwn i'n eu hadnabod mor dda; rydw i yma ar eu rhan nhw."

PENODIADAU MILWROL TYWYSOG CYMRU

Mae Tywysog Cymru ar hyn o bryd yn dal penodiadau fel Llyngesydd yn y Llynges Frenhinol, Cadfridog yn y Fyddin a Phrif Farsial Awyr yn yr Awyrlu Brenhinol. Mae gan y Tywysog berthynas arbennig â:

Y Gwarchodlu Cymreig
22ain Gatrawd (Sir Gaerlleon)
Catrawd y Parasiwtwyr
Reifflau Brenhinol y Gyrcas
Corfflu Awyr y Fyddin
Gwarchodlu'r Marchfilwyr Brenhinol
Iwmyn y Frenhines
Gwarchodlu Marchfilwyr y Frenhines
Y Gwarchodlu Du, 3ydd Bataliwn
Catrawd Frenhinol yr Alban
51fed yr Ucheldiroedd, 7fed Bataliwn
Catrawd Frenhinol yr Alban

Mae'r Tywysog hefyd yn Gomodor Awyr Anrhydeddus yr Awyrlu Brenhinol yn y Fali, Prif Gomodor Rheolaeth y Llynges Frenhinol, Plymouth, Prif Gomodor Awyr Awyrlu Brenhinol Seland Newydd, a Phrif Gyrnol y Corfflu Arfog Awstralaidd Brenhinol, ac mae ganddo berthynas arbennig fel Prif Gyrnol wyth o gatrodau'r Gymanwlad gan weithredu fel eu Prif Gyrnol.

Un arall o ddathliadau pwysig y llynedd oedd nodi 150fed flwyddyn Croes Victoria, prif fedal y DU am ddewrder. Yn rhinwedd ei swydd fel Llywydd Cymdeithas Croes Victoria a Chroes George, aeth y Tywysog a'i wraig ym mis Mehefin 2006 i wasanaeth arbennig yn Abaty Westminster a derbyniad yn Sgwâr St James's. I gofio'r achlysur, cafodd cyfres o dair rhaglen deledu eu darlledu ar sianel 5 i sôn am hanes Croes Victoria (y VC). Ei Uchelder Brenhinol oedd yn cyflwyno'r rhaglen.

Mae cysylltiadau Duges Cernyw â'r gwasanaethau arfog yn ymestyn i'w theulu ei hun. Ym mis Tachwedd 2006, arweiniodd hi ginio yn Clarence House ar gyfer cynfilwyr 12fed gatrawd y Picellwyr Brenhinol, y gatrawd y bu ei thad, Uwchgapten Bruce Shand, yn gwasanaethu ynddi yn yr Ail Ryfel Byd. Bu farw'r Uwchgapten Shand yn 89 oed ym mis Mehefin 2006, yn ei gartref yn Norset.

Yn rhinwedd ei swydd fel Cyrnol Brenhinol, aeth Ei Huchelder Brenhinol ym mis Chwefror 2007 i ymweld â 4ydd Bataliwn Y Reifflau yn ei farics yn Bulford, Wiltshire, cyn iddo adael am gyfnod o wasanaeth yn Irac. Yn ystod ei hymweliad, aeth y Dduges am daith annisgwyl yn un o'r cerbydau arfog Bulldog sydd newydd gael eu hadnewyddu, cyn cael cinio gyda rhai o'r milwyr a'u teuluoedd. Dywedodd Prif Swyddog y bataliwn, Lefftenant-Cyrnol Patrick Sanders, mai braint oedd cael y Dduges yn Gyrnol Brenhinol arnyn nhw. "Mae'n dangos diddordeb brwd yn ein gweithgarwch ni. Mae'n dod ymlaen yn arbennig o dda gyda phawb yn y gatrawd – y teuluoedd, y plant a'r dynion ."

Mae Tywysog William a Thywysog Harry ill dau'n gwasanaethu fel swyddogion ym Myddin Prydain. Ym mis Ebrill 2006, cwblhaodd Tywysog Harry ei hyfforddiant yn yr Academi Filwrol Frenhinol yn Sandhurst ac fe gafodd ei gomisiynu fel Cornet (2il Lefftenant) yng nghatrawd y *Blues and Royals*. Mae'n gwasanaethu ar hyn o bryd fel arweinydd milwyr rhagchwilio arfog yng nghatrawd Marchfilwyr yr Aelwyd. Cwblhaodd Tywysog William ei hyfforddiant yn Sandhurst ym mis Rhagfyr 2006 ac fe'i comisiynwyd yntau fel swyddog i'r *Blues and Royals*. Fel a ddigwyddodd gyda'i frawd iau, arweiniodd y Frenhines barêd Comisiynu Tywysog William, ac roedd Tywysog Cymru a Duges Cernyw'n bresennol hefyd.